

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Chwefror 2017

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Gwawr Jones, Janet Charlton, Gareth Parry, Terry Bullock, Marion Bettenev, Siân Godbert, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau, Karen Pugh, Elisabeth Roberts Cyngor Sir Conwy

Datgan diddordeb; Datganwyd diddordeb gan y Cyng Siân Godbert yng nghofnod 1.6 [c] a gadawodd y cyfarfod tra bu'r mater dan sylw.

Cofnodion Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Ragfyr 2016

Cyfarfod mis Ionawr

Eglurodd y Cadeirydd nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal ar yr 9fed Ionawr 2017, oherwydd nad oedd digon o aelodau'n bresennol.

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Cae Chwarae Pentre' Du/Byrddau Picnic

Nodwyd bod y byrddau picnic wedi eu gosod. Penderfynwyd hefyd i osod bwrdd picnic ar gyfer yr anabl ar fin llwybr Tan Dinas.

[1.2] Tynnu Dŵr/Llyn Elsi

Cyfeiriodd y cler c at lythyr oddiwrth Allied Hydro yn cadarnhau'r bwriad i gael gwared a'r hopper.

[1.3] Ffens Cae Llan

Penderfynwyd cyfrannu 50% o'r gost [£1325.00] tuag at y ffens. Y gwaith i gael ei drefnu gan y Parc Cenedlaethol.

[1.4] Goleuadau Stryd Ffordd yr Orsaf/Glanhau'r Gwydrau

Nodwyd ateb oddiwrth y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn;

[a] Mae'r awdurdod yn disgwyl amcan bris i uwchraddio'r goleuadau sydd yn creu'r llygredd mwyaf. Yn anffodus mae'r gost yn sylweddol a bydd rhaid ariannu'r gwaith o weddill cyllideb y Parc.

[b] Bydd y goleuadau o Ffordd yr Orsaf i'r Ganolfan Groeso yn cael blaenoriaeth.

[c] Disgwylir i'r goleuadau ar Ffordd yr Orsaf gael eu hystyried yng nghyllideb y flwyddyn nesaf.

[1.5] Croesfan Ffordd yr Orsaf

Deallwyd bod y Parc Cenedlaethol yn bwriadu creu croesfan cyn gwyliau'r Pasg.

Y Brif Agenda

[1.6] Materion Cynllunio

[a] Dymchwel rhan o estyniad unllawr presennol ac adeiladu feranda/canopi gwydr i'r edrychiad ochr. Gwesty'r Gwydr.

[b] Dymchwel yr eiddo presennol ac adeiladu eiddo adwerthu tri llawr newydd. Ultimate Outdoors.

[c] Trosi ac ymestyn adeilad fferm i ffurfio tŷ newydd ayb. Ty'n Bryn, Pentre' Felin

[d] Adnewyddu ystafell haul. Minafon.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r pedwar cais uchod.

[1.7] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed yn ystod mis Ionawr 2017.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ionawr 2017.

[1.8] Presept

Yn dilyn trafodaeth , a chan nodi efallai y bydd costau etholiad, penderfynwyd gosod presept o £6000.00 am y flwyddyn ariannol nesaf.

[1.9] Cyllideb Blwyddyn Ariannol 2017/18

Cymeradwywyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

[2] Bwriad i greu mynediad newydd i'r Neuadd Goffa

Y clerch i drafod y mater gyda Swyddog Cynllunio'r Parc Cenedlaethol

[2.1] Mynediad Agored i Afonydd Cymru

Penderfynwyd cefnogi Clwb Pysgota Betws-y-Coed ynglŷn â'r bwriad fydd yn caniatáu mynediad agored i afonydd yng Nghymru. Y clerch i gysylltu gyda Guto Bebb a Janet F Saunders.

[2.2] BT Cau Ciosg Teleffon yn y Gymuned

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i gau'r tri ciosg o fewn y gymuned.

[2.3] Eisteddfod Llanrwst

Penderfynwyd cyfrannu £50.00 tuag at yr Eisteddfod.

[2.4] Cais am gyfraniad Clwb Peldroed Betws-y-Coed

Cytunodd y Cyng Siân Godbert i anfon cyfrifon y clwb i'r clerch.

Cadeirydd _____